# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **08 Mai 2019.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes iddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Andrew Stevens | **Adran Etholiadol:** | Penyrheol |

| | |
|---|---|
| **Swydd Gyflog Uwch:** | |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi cynnal cymorthfeydd misol rheolaidd yn ogystal â chymorthfeydd stryd achlysurol gyda fy nghydweithiwr ward, Jan Curtice

Rydym hefyd wedi cynorthwyo preswylwyr i ddelio â materion amrywiol gan gynnwys:

- Materion tai a chynllun adnewyddu
- Materion ffiniau a draenio
- Parcio
- Tipio anghyfreithlon
- Atgyweirio palmentydd a’r ffordd gerbydau
- Diogelwch ar y briffordd
- Coed sydd wedi gordyfu
- Llinellau melyn
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae ein cynllun i gyflwyno croesfan puffin uchel yn ogystal â rheiliau diogelwch wrth Swyddfa Bost Heol Frampton yn dwyn ffrwyth o’r diwedd; dyma rywbeth rydym wedi bod yn gweithio arno ers cael ein hethol. Dylai’r gwaith gael ei orffen cyn bo hir.

Yn ogystal â hyn, rydym yn parhau i weithio’n agos gyda swyddogion a chyrff allanol i fynd i’r afael â goryrru drwy Bengelli.

Rydym wedi ariannu’r canlynol o’n cyllideb ward gymunedol -

- Diffibrilwyr a hyfforddiant mewn lleoliadau allweddol ledled y ward
- Hysbysfwrdd Cymunedol a chanllaw o flaen Parc y Gelli Aur.
- Meinciau picnic ar gyfer ardal chwarae Gower View play a chamerâu helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Biniau baw cŵn
- Plannu cennin pedr ar hyd Heol Pontarddulais

Rydym hefyd wedi cefnogi’r achosion da gyda rhoddion o gyllidebau ein ward –

- Cynllun Ymatebwyr Cyntaf Gorseinon
- Twrnamaint Rygbi Cyffwrdd The Decky Memorial– gan godi bron £3000 ar gyfer y gwasanaeth cyflwr cardiaidd etifeddol yn ysbyty Treforys
- Diwrnod hwyl Gorseinon
- Clwb rhedeg 3M’s – Hyfforddiant Cymorth Cyntaf
- Dawnsio dros Iechyd Gorseinon
- Grŵp gwŷr a gwragedd gweddw Gorseinon

Roeddem am wneud rhywbeth arbennig i nodi 100 mlynedd ers diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf - felly gosodom feinciau coffa ar draws y ward.
Rwy'n cynnal grŵp trafod ward gweithgar iawn ar gyfryngau cymdeithasol sydd â bron 600 o aelodau. Mae'n hwyluso trafodaeth, yn darparu ffordd hawdd i'n preswylwyr godi materion ac yn hyrwyddo digwyddiadau.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Is-gadeirydd y PDP Trawsnewid
Cyrff llywodraethu ysgolion cynradd ac uwchradd Penyrheol
Rhaglen Datblygu Gwledig

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**
Unwaith eto, trefnais ail dwrnamaint Rygbi Cyffwrdd Decky Memorial (a chwarae ynddo), sydd hyd yn hyn wedi codi dros £8,000 ar gyfer y gwasanaeth cyflwr cardiaidd etifeddol yn Ysbyty Treforys.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Rwy'n ffermwr da godro 3edd cenhedlaeth o Fferm Llannant ym Mhenyrheol, ac mae'n anrhydedd i mi gynrychioli'r ward lle mae fy nheulu wedi byw a gweithio am dros 75 mlynedd. Astudiais amaethyddiaeth gan gymryd seibiant i weithio yn Canterbury, Seland Newydd. Rwyf hefyd yn hoff o chwaraeon ac rwyf wedi chwarae rygbi'n lleol am yr 20 mlynedd diwethaf. Gyda'm cefndir ffermio a chwaraeon, credaf fod fy etheg waith gref a'm gallu i weithio fel aelod o dîm wedi fy helpu'n fawr yn fy rôl fel aelod ward dros Benyrheol. Rwyf hefyd yn frwdfrydig dros TG yn fy amser sbâr. Mae gennyf brofiad mewn caledwedd a meddalwedd megis adeiladu cyfrifiaduron personol, dylunio gwefannau ac mae gen i beth gwybodaeth sylfaenol am godio.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,600

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 19/06/2019 |